# Gwirfoddoli gyda Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod i helpu gyda Sêr y Nos Bae Abertawe

Fel rhan o brosiect Sêr y Nos Bae Abertawe, bydd gwirfoddolwyr yn helpu i gasglu gwybodaeth sylfaenol am symudiadau'r ystlum pedol leiaf ar draws Abertawe gan ddefnyddio monitro acwstig pasif.

Beth fydd hwn yn cynnwys?

## Amser a Lleoliad

Mae safleoedd yr arolygon yn seiliedig yn Abertawe. Byddwch yn dewis safle o restr o ardaloedd yr ydym â diddordeb mewn eu monitro.

Byddwn yn gofyn i chi gasglu teclyn gwrando ystlumod oddi wrth ein hwb cyfarpar yng Nghanolfan Amgylcheddol Abertawe i'w gosod allan yn eich lleoliad arolygu ac i'w gasglu ar ôl iddo recordio am gyfnod o 3 noson. Lle'n bosib, gofynnwn i'r teclyn gael ei osod allan yn eich lleoliad arolygu ddwywaith (h.y. am ddau gyfnod gwahanol o 3 noson) rhwng mis Mai a mis Hydref. Gall y teclyn gael ei osod allan a'i gasglu pan yw'n gyfleus i chi yn ystod y dydd o gwmpas y gofynion hyn, ac yna'i ddychwelyd i'r hwb cyfarpar ar ôl bob arolwg.

Mae caniatâd gan bob un o'n safleoedd yn barod.

## Profiad

Gall unrhyw un gymryd rhan yn ein harolwg gwyddoniaeth ddinesig! Nid oes angen profiad blaenorol. Bydd hyfforddiant llawn a chyfarwyddiadau ar gael am sut i drefnu a gosod y teclynnau pan fyddwch yn cofrestru.

Ar ôl i'r data rydych wedi'i gasglu yn cael ei lawrlwytho a'i ddadansoddi gennym, byddwn yn anfon adroddiad ystlumod atoch fel y gallwch ddarganfod pa rywogaethau sy'n byw yn eich ardal.

## Pethau fydd angen arnoch

- Ffôn symudol neu dabled i gofnodi lleoliad y teclyn – lawrlwythwch yr ap 'Grid  Reference UK – OSGB36' am ddim.
- Bag i gario'r offer i'r lleoliad arolygu e.e. bag for life.
- Gall rhai o'r lleoliadau arolygu fod ar dir garw neu'n fwdlyd felly gwisgwch esgidiau cerdded neu welis.
- Ffrind i'ch helpu os yw'n bosib.

## Sut byddwch chi'n elwa

- Bod yn rhan o dîm arolygu yn helpu'r boblogaeth leol o ystlumod pedol leiaf.
- Hyfforddiant mewn ecoleg ac ymddygiad ystlumod pedol leiaf a thechnegau arolygu ystlumod.
- Cyfle i fod yn rhan o arolygon neu ddigwyddiadau gwahanol am ystlumod pedol leiaf, a chael clywed am gyfleoedd Natur am Byth arall pan fyddent ar gael!

Bydd costau cynnal am wirfoddoli ar gael i unrhywun sydd eu hangen.

## Llenwch y ffurflen gofrestru i wirfoddoli.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau o gwbl, cysylltwch â'n Swyddog Prosiect Bethan Withey - bwithey@bats.org.uk.